# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 3 Mawrth 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

## 264(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(60 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn ateb cwestiynau am 15 munud olaf y sesiwn hon ar faterion yn ymwneud â'i chyfrifoldebau.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - WEDI'I OHIRIO

(0 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar Coronavirus (COVID-2019)

(45 munud)

## 5 Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

(15 munud)

**NDM7279** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

## 6 Dadl: Cyfraddau Treth Incwm Cymru 2020-2021

(15 munud)

**NDM7285** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 116D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn cytuno ar y penderfyniad ynghylch y cyfraddau Cymreig ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm yng Nghymru 2020-21 fel a ganlyn:

a) y gyfradd Gymreig a gynigir ar gyfer cyfradd sylfaenol y dreth incwm yw 10c;

b) y gyfradd Gymreig a gynigir ar gyfer cyfradd uwch y dreth incwm yw 10c;

c) y gyfradd Gymreig a gynigir ar gyfer cyfradd ychwanegol y dreth incwm yw 10c.

## 7 Dadl: Cyllideb Derfynol 2020-2021

(60 munud)

**NDM7282** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25, yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd ar 25 Chwefror 2020.

## 8 Dadl: Y Setliad Llywodraeth Leol 2020-2021

(60 munud)

**NDM7283** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2020-21 (Setliad Terfynol - Cynghorau). Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Chwefror 2020.

## 9 Dadl: Ail Gyllideb Atodol 2019-20

(15 munud)

**NDM7284** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth 4 Chwefror 2020.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig;

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c); a

(vi) manylion am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarparwyd yn unol â Rheolau Sefydlog 20.7 - 20.7B ar gyfer y gyllideb ddrafft, fel y nodwyd yn y protocol y cytunwyd arno o dan Reol Sefydlog 20.1A.

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfen Atodol**
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** - Rebecca Evans (Gwyr)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.37, yn cytuno bod yr adnoddau sy'n cronni ac sydd i'w cadw gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan Ran 3 o Atodlen 4 o Gynnig y Gyllideb Atodol ar dudalen 22 a'r Grynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ar dudalen 6, yn cael ei ddiwygio o £14,825,000 i £14,775,000, fel yr adlewyrchir yn y Memorandwm Esboniadol a gyflwynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Cyllid i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2020; ac yn cytuno hefyd gyda'r newid cyfatebol i Atodlen 7 ar dudalen 29 fel bod Taliadau o Ffynonellau Eraill £50,000 yn fwy, a'r Symiau a Awdurdodwyd i'w Cadw gan Weinidogion Cymru a Chyrff a Ariennir yn Uniongyrchol £50,000 yn llai.

Explanatory Memorandum to the Finance Committee Regarding the Variation of the Estimate of the Wales Audit Office for the Year Ending 31 March 2020
*(Saesneg yn unig)*

## 10 Dadl: Cynnydd ar fynd i'r afael â Throseddau Casineb

(60 munud)

**NDM7281** - Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cytuno nad oes lle i droseddu casineb yng Nghymru.

2. Yn nodi ymdrechion Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i fynd i'r afael â throseddu casineb drwy roi mwy o hyder i ddioddefwyr ddod ymlaen, gwella'r ffordd y cofnodir troseddau casineb, a gweithio gyda chymunedau i atal troseddu casineb yn y dyfodol.

3. Yn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cyngor a gofal pwrpasol.

4. Yn cydnabod bod mynd i'r afael â throseddu casineb yn parhau'n flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi cynllun gweithredu troseddau casineb Llywodraeth y DU sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr.

Llywodraeth y DU – Action Against Hate: The UK Government's plan for tackling hate crime – 'two  years on' *(Saesneg yn unig)*

**Gwelliant 2** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y cynnydd o 17 y cant yn y troseddau casineb a gofnodwyd ledled Cymru y llynedd, o'i gymharu â chynnydd cyffredinol o 10 y cant ar draws Cymru a Lloegr gyfan.

**Gwelliant 3** – Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod atal troseddau casineb yn sbardun strategol allweddol yn y broses o gynllunio a chreu system gyfiawnder i Gymru.

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 4 Mawrth 2020

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 27/02/2020 i'w hateb ar 03/03/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

**1** OAQ55168

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella rhagolygon cyflogaeth y rhai sy'n gadael yr ysgol yng Nghymru?

**Hefin David** *Caerffili*

**2** OAQ55186

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio'r cymoedd gogleddol?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**3** OAQ55171

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hunan-niweidio yng Nghymru?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

**4** OAQ55184

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r cynlluniau i symud gweithrediadau'r Cynulliad i ogledd Cymru am wythnos?

**David Melding** *Canol De Cymru*

**5** OAQ55173

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**6** OAQ55155

**(e)**

Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i wella'r broses o reoli llifogydd yn Nyffryn Conwy yn dilyn stormydd diweddar?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

**7** OAQ55150

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr heriau sy'n wynebu trigolion Gorllewin Caerdydd ar hyn o bryd o ganlyniad i waith sy'n gysylltiedig â chynllun datblygu lleol Caerdydd?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

**8** OAQ55189

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cyfraddau ailgylchu yn Islwyn?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**9** OAQ55165

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gymorth iechyd meddwl i fyfyrwyr mewn addysg bellach yng Nghymru?

**David Rees** *Aberafan*

**10** OAQ55188

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ers etholiad cyffredinol y DU ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**11** OAQ55159

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y caiff gwariant cyfalaf rhanbarthol ei ddyrannu?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**12** OAQ55156

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth sydd ar gael i fusnesau yr effeithiodd y llifogydd diweddar arnynt?

## Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

**1** OAQ55158

**(e)**

A wnaiff y Dirprwy Weinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn Rhondda Cynon Taf?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

**2** OAQ55142

**(e)**

A wnaiff y Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r gymuned Nigeraidd yng Nghymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

**3** OAQ55172

**(e)**

A wnaiff y Dirprwy Weinidog amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd i annog y sector gwirfoddol i geisio am dendrau'r sector cyhoeddus?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

**4** OAQ55143

**(e)**

Pa gamau y mae'r Dirprwy Weinidog yn eu cymryd i wella cydlyniant cymunedol yn ne-ddwyrain Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**5** OAQ55153

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwirfoddoli a grwpiau gwirfoddol yng Nghymru?